COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR ARCHWILIO A GYNHALIWYD YN REMOTE MEETING VIA SKYPE FOR BUSINESS DYDD IAU, 10 MEDI 2020, AM 14:00

Presennol

Y Cynghorydd LM Walters – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| CA Green | JE Lewis | MJ Kearn | RM Granville |
| A Williams | AJ Williams | PA Davies | P Davies |
| TH Beedle | A Hussain | | |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Mark Thomas

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Mark Jones | Rheolwr Archwilio Ariannol, Swyddfa Archwilio Cymru |
| Andrew Rees | Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd |
| Gill Lewis | Pennaeth Cyllid a Swyddog 151 Dros Dro |
| Michael Pitman | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd – Pwyllgorau |
| Nigel Smith | Rheolwr Cyllid |
| Deborah Exton | Dirprwy Bennaeth Cyllid dros dro |
| Joan Davies | Rheolwr Cleient Archwilio |

Aelod Lleyg:

Josephine Williams

197. DATGANIADAU O FUDDIANT

Dim

198. DERBYN Y COFNODION

PENDERFYNWYD: Derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16/07/2020 fel rhai cywir yn amodol ar ychwanegu'r mynychwyr canlynol: Gill Lewis, Josephine Williams, John Llewellyn

199. COFNOD GWEITHREDOEDD Y PWYLLGOR ARCHWILIO

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd adroddiad a oedd yn diweddaru Aelodau am Gofnod Gweithredoedd y Pwyllgor Archwilio.

Dywedodd fod y cofnod gweithredoedd wedi'i greu i gynorthwyo'r Pwyllgor i olrhain penderfyniadau a wnaed gan y Pwyllgor wrth gyflawni ei swyddogaethau. Cyflwynwyd y cofnod gweithredoedd i'r pwyllgor ym mhob cyfarfod. Atodwyd cofnod gweithredoedd wedi'i ddiweddaru yn Atodiad A yr adroddiad.

PENDERFYNWYD: Bod y Pwyllgor wedi nodi'r cofnod gweithredoedd.

200. DIWEDDARIAD PWYLLGOR ARCHWILIO, ARCHWILIO CYMRU

Cyflwynodd cynrychiolydd Archwilio Cymru (AC) adroddiad a oedd yn diweddaru'r Pwyllgor ynglŷn â'r Gwaith Archwilio Ariannol a Pherfformiad yr ymgymerwyd ag o gan Archwilio Cymru yn ystod 2020-21.

Eglurodd cynrychiolydd AC y rhoddwyd yr eitem hwn gerbron y Pwyllgor Archwilio yng nghyfarfod y mis diwethaf a nododd, oherwydd gwyliau'r haf a gwyliau blynyddol, nad oedd datblygiadau sylweddol wedi bod ers y cyfarfod diwethaf.

Eglurodd y Cynrychiolydd AC bod gwaith archwilio perfformiad 2019-20 yn tynnu at y terfyn erbyn Hydref 2020. Nododd na fyddant yn cyflwyno'r Adroddiad Gwelliant Blynyddol fel y gorffennol, ond byddai cyfuniad o adrodd ar archwiliad perfformiad ac ariannol. Ychwanegodd y byddai'n diweddaru'r pwyllgor ynghylch y dull adrodd pan fydd ganddi'r wybodaeth honno.

Eglurodd y cynrychiolydd AC bod y gwaith Sicrwydd ac Asesiad Risg ar gyfer 2021 yn dal i fynd rhagddo a bod y gwaith Cynllunio Adferiad wedi dechrau, gyda'i chydweithiwr wedi mynychu'r Panel Craffu Adferiad yn ddiweddar. Ychwanegodd fod trafodaethau ar fin cael eu cynnal gyda swyddogion perthnasol a'r Prif Weithredwr a'r Swyddog Adran 151 ynglŷn ag arsylwadau a gwaith maes posibl yn y dyfodol.

Eglurodd y Cynrychiolydd AW mewn perthynas â'r adroddiad Cam 1 Cynaliadwyedd Ariannol, y bydd yr adroddiad cenedlaethol i'w gyhoeddi ar 1 Hydref 2020.

Eglurodd y Cynrychiolydd AW mewn perthynas â'r prosiect Ffocws Digidol ei bod wedi bod mewn cyswllt â Swyddogion ac yn disgwyl ymateb ganddynt i drefnu cyfarfod cwmpasu fel y gellir dechrau ar waith maes a drafftio briff prosiect i'r pwyllgor yr oedd disgwyl iddo fod yn barod erbyn Hydref 2020.

Eglurodd y Cynrychiolydd AC ei bod wedi ychwanegu crynodeb o'r cyhoeddiadau diweddar at yr adroddiad, gyda dolenni gwe.

Gofynnodd y Cadeirydd i'r Prif Weithredwr - Cyllid, Perfformiad a Newid Dros Dro beth oedd y trefniadau ar gyfer mynd i'r afael â'r canfyddiadau ac argymhellion mewn perthynas â'r Adroddiad Twyll Cenedlaethol.

Eglurodd y Prif Weithredwr - Cyllid, Perfformiad a Newid Dros Dro y byddai canfyddiadau'r Adroddiad Twyll Corfforaethol Blynyddol yn hwyrach ymlaen yn yr agenda yn helpu i ffurfio ymateb i'r Adroddiad Twyll Cenedlaethol ac awgrymu y dylid cyflwyno adroddiad i Aelodau yn y Pwyllgor Archwilio nesaf.

Gofynnodd Aelod a oedd adroddiad ynglŷn ag iechyd meddwl yn cael ei gyhoeddi yng ngoleuni pandemig Covd-19. Nododd y Cynrychiolydd AC y byddai'n rhoi diweddariad yn y Pwyllgor Archwilio nesaf.

PENDERFYNWYD: Bod y Pwyllgor wedi nodi Diweddariad Pwyllgor Archwilio, Archwilio Cymru yn Atodiad A yr adroddiad.

## 201. ASESIAD RISG CORFFORAETHOL 2020-2021

Cyflwynodd y Prif Weithredwr - Cyllid, Perfformiad a Newid Dros Dro adroddiad a oedd yn diweddaru'r Pwyllgor Archwilio ynglŷn â'r newidiadau i'r Asesiad Risg Corfforaethol.

Eglurodd fod llawer wedi newid ers y cyflwynwyd yr asesiad risg diwethaf i'r Pwyllgor Archwilio ym mis Ionawr. Rhestrwyd yr asesiad risg wedi'i ddiweddaru yn Atodiad A yr adroddiad ac fe gafodd ei adolygu mewn ymgynghoriad â'r Bwrdd Rheoli Corfforaethol a'r Uwch Dîm Rheoli. Ychwanegodd ei fod yn adnabod y prif risgiau sy'n wynebu'r

Cyngor, eu cysylltiad â'r themâu blaenoriaeth, yr effaith mae'r rhain yn debygol o'i chael ar wasanaethau'r Cyngor a'r Fwrdeistref Sirol ehangach, adnabod beth sy'n cael ei wneud i reoli'r risgiau a phwy sy'n gyfrifol am ymateb y Cyngor.

Cyfeiriodd y Prif Weithredwr - Cyllid, Perfformiad a Newid Dros Dro rai enghreifftiau yn Atodiad A lle byddai angen newid sawl dyddiad:

- Roedd teitl Atodiad A yn anghywir a dylai nodi Awst 2020.
- Dylai'r dyddiad adolygu ar gyfer Risg 2, 4 a 6 nodi Hyd 2020.

Eglurodd y Prif Weithredwr - Cyllid, Perfformiad a Newid Dros Dro y cafwyd cyfarfodydd rheoli dyddiol yn ystod anterth y pandemig Covid-19, lle'r oedd risgiau yn ymwneud â Covid-19 yn cael eu hadnabod a'u trin yn ddyddiol, ac felly ni chafwyd eu hychwanegu at y gofrestr risgiau. Eglurodd fod y rhain wedi'u cynnwys yn yr adroddiadau wythnosol i'r cyfarfodydd Aur a bod hynny'n cael ei ystyried yn adroddiad digonol ynglŷn â'r risgiau sydd ynghlwm â Covid-19.

Eglurodd y Prif Weithredwr - Cyllid, Perfformiad a Newid Dros Dro yr ychwanegwyd rhagor o risgiau i'r gofrestr risgiau yn sgil Covid-19 er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu rheoli'n fanwl drwy gydol y pandemig gyda'r gobaith y byddant yn cael eu tynnu i ffwrdd yn fuan. Er enghraifft, roedd risg 11, risg 12 a risg 13 yn risgiau parhaus mewn cysylltiad â Covid-19 a byddant, gyda gobaith, yn cael eu tynnu oddi ar y gofrestr risgiau yn fuan. Ychwanegodd nad oedd hyn yn cynnwys unrhyw risgiau newydd posibl nad oeddem yn ymwybodol ohonynt eto wrth i amgylchiadau newidiol barhau i ddod i'r amlwg.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Prif Weithredwr - Cyllid, Perfformiad a Newid Dros Dro a'i thîm am yr holl waith caled yn rheoli'r sefyllfa.

Gofynnodd aelod am ddiweddariad ynghylch y llif arian a'r risgiau cysylltiedig a pha mor gyflym oedd Llywodraeth Cymru wedi bod yn darparu arian yn ystod pandemig Covid-19.

Eglurodd y Prif Weithredwr - Cyllid, Perfformiad a Newid Dros Dro mewn perthynas ag incwm, ei fod yn dod o wahanol ffynonellau a bod y Cyngor wedi bod yn hawlio am gostau ychwanegol yn sgil Covid gan Lywodraeth Cymru yn fisol a bod bron i dri chwarter hwnnw eisoes wedi'i ad-dalu. Ychwanegodd na chafwyd problemau llif arian.

Gwnaeth Ddirprwy Bennaeth Dros Dro yr Adran Gyllid sylw ar y risg llif arian gan nodi bod taliadau heb eu talu yn dal i fodoli o ran y Grantiau Busnes ac er bod y cynllun wedi cau bellach, bod hawliau heb eu talu a oedd angen gwybodaeth gan y swyddfa werthuso cyn y gallem eu cau.

Gofynnodd aelod am dderbyn ad-daliadau am gostau sy'n gysylltiedig â Covid-19, a oedd y Cyngor yn cael arian yn ôl am lanhau ysgolion? Cyfeiriodd at enghraifft o grŵp blwyddyn yn cau yn Ysgol Gyfun Bryntirion, a'r angen i lanhau'r ysgol yn drylwyr, a phetai hyn yn parhau i ddigwydd, a fyddem yn wynebu'r costau hynny ein hunain fel awdurdod?

Eglurodd y Prif Weithredwr - Cyllid, Perfformiad a Newid Dros Dro bod y Cyngor wedi derbyn arian grant ar gyfer yr achosion cyntaf lle byddai angen glanhau ysgolion yn drylwyr. Fodd bynnag, gyda'r sefyllfa yn symud mor gyflym a'r ansicrwydd o ran pa grwpiau blwyddyn/ysgolion fyddai'n cau, nid oedd ateb pendant ar hyn o bryd. Nid oedd Llywodraeth Cymru wedi dweud beth fyddai'n ei wneud yn y sefyllfa hon.

Ychwanegodd Bennaeth Dros Dro yr Adran Gyllid bod Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid i'r holl ysgolion i brynu cyfarpar diogelu personol, offer glanhau etc. a fyddai'n

ddigon i'r ysgolion ar gyfer gweddill y tymor. Ychwanegodd fod awgrym wedi bod y byddai rhagor o gyllid yn cael ei gyhoeddi ond nad oes manylion penodol ynghylch hynny hyd yn hyn.

Gofynnodd yr Aelod Lleyg a oedd y risgiau sy'n gysylltiedig â Covid-19 yn perthyn i'r gofrestr risgiau ai peidio.

Eglurodd y Prif Weithredwr - Cyllid, Perfformiad a Newid Dros Dro bod y risgiau llif arian yn gysylltiedig â Risg 1 sy'n ymdrin â chynaliadwyedd ariannol y Cyngor, sydd wastad wedi bod yn risg ond wedi'i amlygu'n fwy gan effeithiau Covid-19. Ychwanegodd fod y risgiau eraill yn ymwneud ag adnewyddu ac adfer gwasanaethau ac y teimlir bod categoreiddio'r risgiau yn well er mwyn caniatáu i'r Cyngor ganolbwyntio arnynt.

Gofynnodd yr Aelod Lleyg am fanylion penodol mewn perthynas â'r sylwadau ynglŷn â Risg 2 - 'Mae adolygiad o brosesau'r Cyngor wedi golygu bod rhai sy'n cael eu hystyried yn ddianghenraid a biwrocratig wedi peidio ond bod angen cydymffurfiaeth lwyr â'r rheiny sy'n parhau.' Cynghorodd y Prif Swyddog - Cyllid, Perfformiad a Newid dros dro y byddai ymateb ffurfiol i hyn yn cael ei ddarparu yn y cyfarfod nesaf.

Gofynnodd Aelod beth oedd yn cael ei wneud i helpu staff gofal ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr gan yr adroddwyd ar y newyddion y byddai swm o £500 yn cael ei dalu iddynt. Gofynnodd a yw hyn wedi'i drefnu hyd yn hyn.

Eglurodd y Prif Weithredwr - Cyllid, Perfformiad a Newid dros dro bod logisteg hyn wedi bod yn anodd ond bod y Cyngor yn y broses o wneud y taliadau hynny. Eglurodd fod y taliadau yn ddarostyngedig i dreth ac YG a byddai angen i bob gofalwr hawlio'r arian yn weithredol gan nad yw'n cael ei dalu'n awtomatig.

Mynegodd y Cadeirydd ei phryderon mewn perthynas â risg rhif 8 a'r gallu i recriwtio staff newydd a chadw staff cyfredol. Crybwyllodd fod datblygiad staff cyfredol, yn benodol staff newydd ac ieuengach, yn bwysig a'i bod yn pryderu nad oedd hyn wedi'i ymgorffori yn y risg.

Cytunodd y Prif Swyddog - Cyllid, Perfformiad a Newid dros dro bod recriwtio staff newydd wedi cyflwyno her, yn enwedig yn rôl y Prif Swyddog - Cyllid, Perfformiad a Newid. Cydnabu bwysigrwydd cadw staff cyfredol a rhoi'r cyfle iddynt ddysgu a datblygu a nododd y byddai'n cyflwyno'r pwynt hwn i'r Bwrdd Rheoli Cyffredinol am ragor o drafod.

Mynegodd y Cadeirydd ei phryderon mewn perthynas â risg 10 a'r sefyllfa gyfredol gyda gweithio gartref. Gofynnodd a ellir cael trafodaethau gyda'r Bwrdd Rheoli Corfforaethol i ymgorffori'r risgiau GDPR posibl gydag argraffu, storio a chael gwared ar ddogfennau cyfrinachol. Cytunodd y Prif Weithredwr - Cyllid, Perfformiad a Newid dros dro y gellir cynhyrchu rhagor o ganllawiau i staff sy'n gweithio gartref i sicrhau bod y risg yn cael ei rheoli.

Crybwyllodd y Cadeirydd bod Panel Adfer wedi Covid-19 wedi'i sefydlu ac nad oedd hyn wedi'i ymgorffori yn risg 11 fel dull o fynd i'r afael â'r risg. Dywedodd y Prif Weithredwr - Cyllid, Perfformiad a Newid dros dro y byddai'n cyflwyno hyn i'r Bwrdd Rheoli Corfforaethol.

PENDERFYNWYD: Aelodau wedi ystyried newidiadau i'r Asesiad Risg Corfforaethol ac wedi cytuno i dderbyn adroddiad arall ym mis Ionawr 2021 ynghylch Asesiad Risg Corfforaethol 2021-22 ac adolygiad o'r Polisi Rheoli Risg Corfforaethol.

## 202. ADRODDIAD ALLDRO RHEOLI'R TRYSORLYS BLYNYDDOL 2019-20

Cyflwynodd Prif Gyfrifydd Rheolwr y Grŵp Dros Dro adroddiad a oedd yn diweddaru'r Pwyllgor Archwilio ynghylch sefyllfa'r alldro ar gyfer gweithgareddau rheoli'r trysorlys, Dangosyddion Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2019-20 a phwysleisio cydymffurfiaeth â pholisïau ac arferion y Cyngor cyn eu hadrodd i'r Cabinet a'r Cyngor.

Eglurodd Rheolwr y Grŵp - Prif Gyfrifydd Dros Dro bod y Pwyllgor Archwilio wedi'i enwebu i fod yn gyfrifol am sicrhau gweithgareddau craffu effeithiol o Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a gweithgareddau. Yn ystod blwyddyn ariannol 2019-20, derbyniodd y Pwyllgor Archwilio Adroddiad Alldro Rheoli'r Trysorlys Blynyddol 2018-19 ym mis Mehefin 2019, yr Adroddiad Rheoli'r Trysorlys Hanner Blwyddyn 2019-20 ym mis Tachwedd 2019 a'r Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2020-21 ym mis Ionawr 2020. Rhestrir rhagor o gefndir yn adran 3 yr adroddiad.

Eglurodd Rheolwr y Grŵp - Prif Gyfrifydd Dros Dro mai ymgynghorwyr rheoli'r trysorlys y Cyngor oedd Arlingclose. Mae'r gwasanaethau cyfredol a ddarperir i'r Cyngor yn cynnwys:

- cyngor ac arweiniad ar bolisïau, strategaethau ac adroddiadau perthnasol
- cyngor ar benderfyniadau buddsoddi
- hysbysu statws credyd a newidiadau
- gwybodaeth arall ynglŷn ag ansawdd credydau
- cyngor ar benderfyniadau rheoli dyledion
- cyngor ar gyfrifyddu
- adroddiadau ar berfformiad y trysorlys
- rhagolygon cyfraddau llog
- cyrsiau hyfforddi

Yn dilyn proses dendro diweddar, adnewyddwyd y contract ar gyfer Arlingclose am gyfnod o 4 blynedd, hyd at fis Awst 2024, a oedd yn ein caniatáu i gael perthynas gadarnhaol barhaus gyda nhw ac elwa ar eu gwybodaeth o'r Cyngor a'r sefyllfa ariannol.

Eglurodd Prif Gyfrifydd Rheolwr y Grŵp Dros Dro bod 2019-20 wedi bod yn flwyddyn heriol gyda Brexit a'r pandemig Covid-19 yn fwy diweddar. Yn sgil hyn cafwyd newidiadau yng nghyfraddau llog a chyfraddau chwyddiant. Darparwyd rhagor o gyd-destun economaidd yn 4.1 yr adroddiad.

Eglurodd Prif Gyfrifydd Rheolwr y Grŵp Dros Dro bod crynodeb o weithgareddau rheoli'r trysorlys ar gyfer 2019-20 i'w weld yn Atodiad A yr adroddiad. Dangoswyd sefyllfa ddyledion a buddsoddiadau allanol y Cyngor ar gyfer 1 Ebrill 2019 hyd at 31 Mawrth 2020 yn Nhabl 1 a darparwyd rhagor o fanylion yn adran 3, Strategaeth Benthyca ac Alldro, ac adran 4, Strategaeth Buddsoddi ac Alldro.

Adroddodd na ymgymerwyd â benthyciadau hirdymor yn 2019-20 ac na ymgymerwyd ag ail-drefnu dyled gan nad oedd arbedion sylweddol i'w gwneud, fodd bynnag, bydd y portffolio benthyciadau yn cael ei adolygu yn ystod 2020-21.

Mae llifoedd arian ffafriol wedi darparu mwy o gyllid i'w buddsoddi a balans y buddsoddiadau ar 31 Mawrth 2020 oedd £30 miliwn, gyda chyfradd llog cyfartaledd o 0.82%. Roedd hwn yn gynnydd yn y buddsoddiadau taladwy o ddechrau'r flwyddyn ariannol lle'r oedd buddsoddiadau yn £27.4 miliwn (cyfradd llog cyfartaledd o 0.94%). Mae Tabl 2 yn Atodiad A yn manylu symudiad y buddsoddiadau yn ôl mathau parti i gontract ac mae'n dangos y balansau cyfartalog, y llog a gafwyd, hyd gwreiddiol a'r cyfraddau llog ar gyfer 2019-20.

Amlinellodd Rheolwr y Grŵp - Prif Gyfrifydd Dros Dro bwyntiau allweddol yn Atodiad A yr adroddiad a oedd yn cynnwys:

- Sefyllfa Ddyledion a Buddsoddiadau Allanol
- Strategaeth Benthyca ac Alldro ar gyfer 1 Ebrill 2019 hyd at 31 Mawrth 2020
- Strategaeth Buddsoddi ac Alldro ar gyfer 1 Ebrill 2019 hyd at 31 Mawrth 2020

Eglurodd mai'r prif amcanion yn ystod 2019-20 oedd:

- Cynnal diogelwch cyfalaf
- Cynnal hylifedd fel bod cyllid ar gael pan mae angen gwario
- Cyflawni'r arenillion ar fuddsoddiadau yn gymesur â'r lefelau diogelwch a hylifedd priodol

Ychwanegodd fod llifoedd arian ffafriol wedi darparu balansau arian cadarnhaol ar gyfer buddsoddi a balans y buddsoddiadau ar 31 Mawrth 2020 oedd £30 miliwn. Dangosir rhagor o fanylion yn Nhabl 2 sy'n manylu'r buddsoddiadau hyn yn ôl math parti i gontract.

Eglurodd Prif Gyfrifydd Rheolwr y Grŵp Dros Dro bod dau fuddsoddiad hirdymor gyda chyfanswm o £4 miliwn (hyd gwreiddiol o 12 mis neu fwy) yn daladwy yn 31 Mawrth 2020 gydag Awdurdodau Lleol a gynhwysir yn Nhabl 3, a fydd yn aeddfedu yn 2020-21. Roedd yr holl fuddsoddiadau eraill ar 31 Mawrth 2020 yn flaendaliadau tymor byr (gan gynnwys mynediad uniongyrchol a chyfrifon hysbysu). Roedd rhagor o fanylion yn Nhabl 3.

Gofynnodd Aelod a oedd y Cyngor yn ystyried effeithiau Brexit ar ei strategaeth rheoli'r trysorlys.

Dywedodd Rheolwr y Grŵp - Prif Gyfrifydd ei fod ynghlwm â grŵp Brexit a oedd yn ystyried effeithiau Brexit ar feysydd megis cyfraddau llog etc. Eglurodd nad oedd manylion Brexit yn ddigon clir i allu darparu ymateb manwl hyd yn hyn.

PENDERFYNWYD: Bod y Pwyllgor Archwilio wedi nodi'r gweithgareddau rheoli'r trysorlys blynyddol ar gyfer 2019-20.

203. DATGANIAD O GYFRIFON 2019-20

Cyflwynodd Prif Gyfrifydd y Rheolwr Grŵp Dros Dro Ddatganiad o Gyfrifon terfynol ar gyfer 2019-20, a fydd bellach yn cael ei ardystio gan archwilwyr allanol, Archwilio Cymru, a Llythyr Sylwadau cysylltiedig y Cyngor. Dywedodd y bydd Archwilio Cymru yn diweddaru'r Pwyllgor am eu prif ganfyddiadau o'r archwiliad, yn crynhoi'r gwaith archwilio a gynhaliwyd ar gyfer blwyddyn ariannol 2019-20, ac yn cyflwyno eu Hadroddiad Archwilio Datganiadau Ariannol, sy'n mynnu bod yr archwilydd penodedig yn adrodd y canfyddiadau allweddol hynny i'r rhai hynny sy'n gyfrifol am lywodraethu.

Adroddodd fod y Datganiad o Gyfrifon 2019-20 heb eu harchwilio wedi'i lofnodi gan y swyddog ariannol cyfrifol ar 30 Mehefin 2020 a'i gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio ar 16 Gorffennaf 2020 i'w nodi. Dywedodd fod yr archwiliad allanol wedi'i gynnal yn ystod y cyfnod cyfamserol, gan arwain at newidiadau i'r datganiadau ariannol a nodir isod:

- Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr - cywiro triniaeth gwaredu ased rhwng Cost Gwasanaethau a Gwariant Gweithredu Arall.

- Taflen Balansau - cynnydd yn yr asedau i gynrychioli dychweliad cartref gofal i berchnogaeth y Cyngor.

Ni chafodd yr un o'r addasiadau hyn effaith ar Gronfa'r Cyngor.

Adroddodd fod nifer o'r nodiadau wedi'u haddasu na effeithiodd ar sefyllfa ariannol y Cyngor, ac maent wedi'u manylu yn Adroddiad yr Archwiliwr. Nododd fod angen i'r Prif Swyddog Ariannol a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio lofnodi'r Datganiad o Gyfrifon 2019-20 erbyn 15 Medi, fel 'adlewyrchiad gwir a theg' o sefyllfa ariannol y Cyngor ar 31 Mawrth 2020.

Nododd hefyd fod Archwilio Cymru wedi cwblhau rhan sylweddol o'u gwaith archwilio a bydd y Datganiad o Gyfrifon yn cael ei lofnodi gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ar 14 Medi 2020, yn amodol ar y Pwyllgor Archwilio yn cymeradwyo'r cyfrifon. Nid oes newid i falansau Cronfa'r Cyngor a Chronfeydd wedi'u Clustnodi ar 31 Mawrth 2020, fel y cyflwynir i'r Pwyllgor Archwilio ym mis Mehefin 2020. Nododd fod un argymhelliad wedi'i godi ar ôl yr archwiliad, mewn cymhariaeth â naw y flwyddyn flaenorol. Mae'r argymhelliad yn ymwneud â goruchwylio Cofrestr Asedau Sefydlog y Cyngor, ac yn nodi y dylai'r Cyngor gryfhau ei reolyddion mewn perthynas â'r Gofrestr Asedau drwy ymgymryd ag adolygon rheolaidd o fynediad a defnydd y system. Sicrhaodd y Pwyllgor bod gwiriadau blynyddol yn cael eu cynnal
drwy sicrhau bod balansau agoriadol yn y flwyddyn gyfredol yn cyd-fynd â balansau terfynol y flwyddyn flaenorol fel rhan o broses Datganiad o Gyfrifon Terfynol flynyddol, a bod ychwanegiadau a gwarediadau yn cyd-fynd â thrafodion yn y system gyfrifeg graidd. Nododd y bydd adolygiadau yn cael eu cynnal yn ystod y flwyddyn i sicrhau gonestrwydd parhaus y data a gedwir yn y Gofrestr Asedau i ddarparu sicrwydd ychwanegol yn unol â'r argymhelliad.

Hysbysodd cynrychiolydd Archwilio Cymru y Pwyllgor ei fod wedi rhyddhau ei ofynion ac yn bwriadu cyhoeddi tystysgrif archwilio anghymwys, yn cadarnhau eu bod yn cyflwyno safbwynt gwir a theg ac wedi'u paratoi'n gywir. Diolchodd y staff am eu proffesiynoldeb a hysbysu'r Pwyllgor y bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn ardystio'r cyfrifon ar 14 Medi 2020.

Rhoddodd Prif Gyfrifydd Rheolwr y Grŵp Dros Dro sylw ynglŷn â natur gadarnhaol yr adroddiad a oedd wedi'i gyflawni mewn cyfnod heriol gyda sawl aelod newydd o staff yn ymuno â'r Tîm. Diolchodd y tîm Archwilio am eu cefnogaeth.

Diolchodd y Prif Weithredwr Cyllid, Perfformiad a Newid Dros Dro a Chadeirydd i'r Tîm Cyllid a'r archwilwyr allanol am eu gwaith ar y Datganiad o Gyfrifon.

PENDERFYNWYD: Bod y Pwyllgor:

- wedi cymeradwyo'r Datganiad o Gyfrifon 2019-20 a archwiliwyd fel y diwygiwyd (Atodiad A)
- wedi nodi Adroddiad Archwilio Datganiadau Ariannol yr archwilwyr penodedig (Atodiad B)
- wedi nodi a chytuno'r Llythyr Sylwadau Terfynol at Swyddfa Archwilio Cymru (Atodiad C).

204. LLYTHYR ARCHWILIO HARBWR PORTHCAWL

Cyflwynodd Prif Gyfrifydd Rheolwr y Grŵp Dros Dro Lythyr Archwilio Blynyddol 2019-20 yr Archwiliwr Penodedig ar gyfer Harbwr Porthcawl.

Adroddodd fod yr Archwiliwr Penodedig yn bwriadu cyhoeddi tystysgrif archwilio anghymwys, yn cadarnhau eu bod yn cyflwyno safbwynt gwir a theg o sefyllfa ariannol a

thrafodion yr Harbwr. Nododd fod y llythyr hefyd yn cadarnhau bod yr Archwiliwr Penodedig yn fodlon na chanfuwyd unrhyw gamddatganiadau yn y Datganiad Blynyddol a dim materion eraill sy'n effeithio ar eu barn archwilio. Dywedodd wrth y Pwyllgor y bydd disgwyl i'r Archwiliwr Penodedig ardystio'n ffurfiol bod archwiliad o'r cyfrifon wedi'i gwblhau, ar 14 Medi 2020.

PENDERFYNWYD: Bod y Pwyllgor wedi nodi'r Llythyr Archwilio Blynyddol 2019-20.

205. CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL BLYNYDDOL

Cyflwynodd Rheolwr Cleientiaid Archwilio yr Archwiliad Mewnol y Cynllun yr Archwiliad Mewnol Blynyddol yn Seiliedig ar Risgiau ar gyfer 2020-21.

Adroddodd mai yn unol â Safonau Archwiliad Mewnol y Sector Cyhoeddus, rhaid i'r Pennaeth Archwilio Mewnol sefydlu cynlluniau yn seiliedig ar risgiau i bennu blaenoriaethau'r gweithgarwch archwilio mewnol, yn unol â nodau'r sefydliad. Nododd mai er mwyn datblygu'r cynllun yn seiliedig ar risgiau, bydd y Pennaeth Archwilio Mewnol yn ymgynghori â'r uwch reolwyr a'r bwrdd ac yn ennill dealltwriaeth o strategaethau'r sefydliad, amcanion busnes allweddol, risgiau cysylltiedig a phrosesau rheoli risg. Rhaid i'r Pennaeth Archwilio Mewnol adolygu ac addasu'r cynllun, fel sy'n angenrheidiol, i ymateb i newidiadau ym musnes, risgiau, gweithredoedd, rhaglenni, systemau a rheolyddion y sefydliad.

Adroddodd y Rheolwr Cleientiaid Archwilio y bydd y cynllun archwilio drafft ar gyfer 2020-21 yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio fis Ebrill 2020 ond bod yr argyfwng COVID19 wedi oedi'r broses gan fod angen ystyried risgiau sylweddol newydd a ffyrdd newydd o weithio i fod yn sail i'r Cynllun. Rhoddodd wybod i'r Pwyllgor bod penderfyniadau brys ym mis Mawrth 2020 mewn perthynas â sut fyddai angen gweithredu gwasanaethau'r Cyngor yng ngoleuni'r pandemig a rhoddwyd trefniadau brys mewn lle ynglŷn â gwneud penderfyniadau a llywodraethiant rhag ofn y byddai eu hangen a byddai cyfarfodydd y Cyngor a'r Pwyllgor yn cael eu gwahardd dros dro. Nododd mai er mwyn cynnal gwasanaeth parhaus lle bynnag sy'n bosibl, bod y Cyngor wedi symud yn arbennig o gyflym i gyfarparu cymaint â phosibl o'i staff swyddfa gyda thechnoleg symudol i alluogi iddynt weithio gartref o fewn amserlen hynod fer. Ble'r oedd rolau staff yn lleihau oherwydd llai o waith neu wasanaethau ddim yn cael eu darparu, ceisiwyd yn weithredol a gweithredwyd cyfleoedd ar gyfer adleoliad dros dro.

Nododd y Rheolwr Cleientiaid Archwilio mai oherwydd y newidiadau sylweddol i'r ffordd yr oedd y Cyngor yn gweithredu ac yn gweithredu ar hyn o bryd, roedd cynnal ail-werthusiad o'r cynllun drafft gwreiddiol i ddatblygu Cynllun yn Seiliedig ar Risgiau ar gyfer 2020-21 yn angenrheidiol. Nododd fod yr eitemau sydd wedi'u nodi yn y cynllun gwreiddiol yn dilyn yr amryw gyfarfodydd ymgynghori a gynhaliwyd rhwng mis Ionawr a Mawrth 2020 (cyn COVID 19) wedi'u cynnwys fel sylfaen i'r cynllun diwygiedig hwn ochr yn ochr ag asesiad risg ar y bryd. Cynhaliwyd asesiad risg wedi'i ddiweddaru hefyd oherwydd COVID 19.

Rhoddodd y Rheolwr Cleientiaid Archwilio wybod i'r Pwyllgor y bydd pwyslais gwahanol oherwydd effaith COVID; risgiau sy'n codi yn sgil COVID, argaeledd staff archwilio a gwasanaeth a heriau yn codi yn sgil gweithio o bell. Nododd fod y cynllun wedi'i ddiweddaru yn fwy hyblyg na'r arfer er mwyn gallu ymateb i amgylchiadau newidiol a digwyddiadau a all ddigwydd megis ail don/argyfyngau, gallu i gael staff a thystiolaeth neu geisiadau i ymateb i faterion newydd a all amlygu eu hunain. Bydd y gwaith Archwilio Mewnol yn cael ei gynnal o bell gan ddefnyddio fideo-gynadledda a datrysiadau digidol fel sylfaen ar gyfer cyfarfodydd a rhannu dogfennau a data.

Adroddodd y Rheolwr Cleientiaid Archwilio y bydd y cynllun arfaethedig yn cwmpasu digon i allu darparu barn ar ddiwedd 2020/21 gan roi ystyriaeth i'r effaith nad ydym wedi gweld ei thebyg o'r blaen yn sgil y pandemig COVID a bydd y Pwyllgor yn cael diweddariadau ynglŷn â sut mae'r cynllun yn cael ei ddarparu ac unrhyw newidiadau a fydd o bosibl eu hangen yng ngoleuni'r profiadau o weithio dan amgylchiadau ac mewn amgylchedd hollol wahanol.

Cwestiynodd aelod o'r Pwyllgor y rheswm pam nad oes awgrym o'r blaenoriaethu a'r rheswm dros amserlennu gwaith. Rhoddodd y Rheolwr Cleientiaid Archwilio wybod i'r Pwyllgor nad oedd blaenoriaethau wedi'u neilltuo yn y cynllun, roedd y cwbl yn cael eu hystyried yn risg uchel neu ganolig ac roedd yn hyderus bod yr holl eitemau ar y cynllun yn gyraeddadwy. Mae gwaith eisoes wedi dechrau gyda'r gwaith dilysu grantiau yn mynd rhagddo. Yn ogystal, rhoddodd y Rheolwr Cleientiaid Archwilio wybod i'r Pwyllgor y bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno yn y Pwyllgor nesaf yn ymwneud â'r cynnydd a wnaed yn erbyn y cynllun hwn hyd yn hyn a nododd nad oedd meysydd yn peri pryder.

Gofynnodd y Pwyllgor am fanylion y 12 eitem sydd wedi'u gohirio ac a fyddant yn cael eu hystyried yn y flwyddyn nesaf neu a fydd sicrwydd i'w gael yn rhywle arall. Ymgymerodd y Rheolwr Cleientiaid Archwilio â'r gwaith i ddarparu'r Pwyllgor â manylion y gwaith a oedd wedi'i ohirio.

Cyfeiriodd y Pwyllgor at y nifer o swyddi gwag yn y Tîm Archwilio Mewnol a bod Gwasanaethau Archwilio Mewnol SWAP wedi'u defnyddio i ymgymryd â gwaith archwilio dros y 2 flynedd ddiwethaf ac a fyddai darparwyr eraill yn cael eu hystyried. Dywedodd y Rheolwr Cleientiaid Archwilio wrth y Pwyllgor mai'r bwriad oedd cynnal ymarfer tendro.

PENDERFYNWYD: Bod:

- Y Pwyllgor wedi ystyried a chymeradwyo'r Cynllun Archwilio Mewnol yn Seiliedig ar Risg Blynyddol a gynigiwyd ar gyfer 2020/21 yn unol â'i Gylch Gorchwyl.
- Adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor nesaf ar gynnydd gyda'r Cynllun Archwilio Mewnol hyd yn hyn.
- Aelodau yn cael manylion y 12 eitem sydd wedi'u gohirio a'r ffordd y bwriedir ymdrin â nhw yn y dyfodol.

206. ADRODDIAD TWYLL CORFFORAETHOL BLYNYDDOL 2019/20

Cyflwynodd y Rheolwr Cleientiaid Archwilio adroddiad ar y cyd rhwng y Prif Swyddog - Cyllid, Perfformiad a Newid Dros Dro a Phennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol ynglŷn ag Adroddiad Twyll Corfforaethol Blynyddol 2019-20. Rhoddodd yr adroddiad fanylion i'r Pwyllgor o'r gweithredoedd a wnaethpwyd mewn perthynas â gwrth-dwyll yn ystod 2019/20 gan gynnwys diweddariad ar Ymarfer y Fenter Twyll Cenedlaethol.

Adroddodd y Rheolwr Cleientiaid Archwilio ar y trefniadau sydd mewn lle i reoli'r risg o dwyll gyda'r nod o atal, canfod ac ymchwilio i dwyll ac adrodd amdano. Dywedodd fod y Cyngor yn gosod safonau uchel i Aelodau a Swyddogion wrth weithredu a gweinyddu materion y Cyngor, a'i fod bob amser wedi ymdrin ag unrhyw honiadau neu amheuon o dwyll, llwgrwobrwyaeth a llygredigaeth yn brydlon. Mae gan y Cyngor bolisïau, gweithdrefnau, a mecanweithiau adrodd yn eu lle i atal, canfod ac adrodd ar dwyll, llwgrwobrwyaeth a llygredigaeth, sy'n cynnwys y Strategaeth a Fframwaith Twyll, Polisi Chwythu'r Chwiban, Cod Ymddygiad TGCh a'r Polisi Gwrth-dwyll a Llwgrwobrwyaeth. Mae Strategaeth a Fframwaith Twyll rhwng 2018/19 a 2020/21 yn parhau i fod yn sail i ymrwymiad y Cyngor i atal bob ffurf ar dwyll, llwgrwobrwyaeth a llygredigaeth, p'un a geisir gwneud hynny'n allanol neu'n fewnol.

Bu i'r Rheolwr Cleientiaid Archwilio grynhoi'r gwaith gwrth-dwyll a wnaed yn yr Awdurdod yn ystod 2019/20. Nododd fod Strategaeth a Fframwaith Twyll y Cyngor yn cynnwys gwaith ymatebol a rhagweithiol gyda'r gwaith rhagweithiol sydd wedi'i gynnwys mewn cynllun gweithredu sy'n nodi'r datblygiadau mae'r Cyngor yn ymgymryd â nhw i wella ei wytnwch i dwyll a llygredigaeth ac amlinellodd y cynnydd a wnaed yn erbyn y cynllun gweithredu. Mae modiwl e-ddysgu Atal Twyll wedi'i ddatblygu a'i gyflwyno i staff, mae gwybodaeth ynghylch twyll yn cael ei diweddaru a'i chyhoeddi i staff ar y fewnrwyd ac mae proses asesu risg fwy manwl o dwyll yn cael ei datblygu a fydd yn cysylltu â'r broses rheoli risgiau corfforaethol.

Yn ogystal, adroddodd y Rheolwr Cleientiaid Archwilio ar fanylion yr ymarfer paru data diwethaf a oedd yn seiliedig ar ddata a gafwyd ym mis Medi 2018, lle'r oedd cyfanswm o 484 o achosion o dwyll neu gamgymeriadau wedi'u canfod yn cyfartalu i £41,700 o gronfeydd adferadwy sydd ar y cyfan yn gysylltiedig â'r dreth gyngor neu fudd-dal tai. Nododd y bydd yr ymarfer paru data nesaf yn dechrau yn 2020/21, bydd y data yn cael ei godi fis Hydref 2020 a bydd y parau newydd yn cael eu datgan fis Ionawr 2021. Darparodd y Pwyllgor hefyd gyda manylion y gwaith gwrth-dwyll mewnol a wnaethpwyd gan yr Archwiliad Mewnol ac Ymchwilydd Twyll y Cyngor gan gynnwys ymchwiliadau mewnol ac ymchwiliadau i ostyngiadau yn y dreth gyngor. Nododd hefyd yr ymgymerwyd â gwaith ar y cyd yn ystod 2019/20 gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn gweithio gyda'r Gwasanaeth Ymchwilio Twyll Sengl ar unrhyw ymchwiliadau priodol i fudd-daliadau a gwaith mewn partneriaeth â Chyngor Dinas Portsmouth i ymgymryd â gweithred gorfodi'r bathodyn glas. Mae rhwydweithio lleol hefyd mewn lle sydd wedi galluogi rhannu deallusrwydd yn enwedig mewn perthynas â sgamiau newydd ers yr argyfwng COVID-19.

Rhoddodd aelod o'r Pwyllgor sylw ynglŷn â'r angen i adnewyddu'r fframwaith a gafodd ei ystyried ddiwethaf gan y Pwyllgor ym mis Ionawr 2019. Dywedodd y Prif Swyddog Cyllid, Perfformiad a Newid Dros Dro wrth y Pwyllgor y bydd strategaeth wedi'i hadnewyddu yn cael ei chyflwyno i'r Pwyllgor fis Tachwedd. Rhoddodd wybod i'r Pwyllgor bod y pwyslais ar yr Adroddiad Twyll Corfforaethol Blynyddol wedi'i newid i waith twyll a llygredigaeth prif ffrwd. Yn ogystal, rhoddodd wybod i'r Pwyllgor bod yr Uwch Swyddog Twyll newydd ei benodi yn mynychu'r Pwyllgor heddiw.

PENDERFYNWYD: Bod:

- Y Pwyllgor wedi nodi'r adroddiad, y mesurau ar waith a'r gwaith a wneir i atal a chanfod twyll a chamgymeriadau.
- Strategaeth Twyll wedi'i hadnewyddu yn cael ei chyflwyno i'r Pwyllgor nesaf.

207. BLAENRAGLEN WAITH 2020-21 WEDI'I DIWEDDARU

Ceisiodd Dirprwy Bennaeth Dros Dro yr Adran Gyllid gymeradwyaeth am y Blaenraglen Waith wedi'i Diweddaru ar gyfer 2020-21 a phwysleisiodd swyddogaethau craidd Pwyllgor Archwilio effeithiol.

Pwysleisiodd yr eitemau sydd wedi'u rhestru i'w cyflwyno yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor ar 12 Tachwedd 2020 a gofynnodd i'r Pwyllgor gadarnhau'r amserlen hon, cadarnhau rhestr o'r bobl yr hoffent wahodd ar gyfer pob eitem (os yn briodol), a nodi a oes angen unrhyw wybodaeth neu ymchwil ychwanegol.

PENDERFYNWYD: Bod Aelodau wedi ystyried a chymeradwyo'r Blaenraglen Waith a gynigiwyd ar gyfer 2020-21.

208. EITEMAU BRYS

Nid oedd yna unrhyw eitemau brys.
Daeth y cyfarfod i ben am 15:40